**Rhif: 2**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C21/0934/15/AC** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **23/09/2021** |
| **Math y Cais:** | **Diwygio Amod** |
| **Cymuned:** | **Llanddeiniolen** |
| **Ward:** | **Llanberis** |
| **Bwriad:** | **Cais ar gyfer diwygio amod 1 o ganiatâd cynllunio cyfeirnod C16/0886/15/LL ar gyfer gosod llinell cyswllt grid 132KV tanddaearol rhwng safle storio pwmp Glyn Rhonwy ac Is-orsaf Pentir er mwyn ymestyn y cyfnod dechreuad y datblygiad o 2 flynedd ychwanegol** |
| **Lleoliad:** | **Glyn Rhonwy Pumped Storage Glyn Rhonwy, Llanberis, LL55 4EL** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATAU GYDAG AMODAU** |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Mae hwn yn gais ar gyfer diwygio amod 1 o ganiatâd cynllunio cyfeirnod C16/0886/15/LL ar gyfer gosod llinell gyswllt grid 132kv tanddaearol rhwng safle storio pwmp Glyn Rhonwy ac Is-orsaf Pentir er mwyn ymestyn y cyfnod dechreuad y datblygiad o 2 flynedd ychwanegol.

1.2 Mae hyd y cysylltiad yn mesur oddeutu 9km ac yn gwbl danddaearol. Bydd yn rhedeg yn gyntaf o fewn safle Glyn Rhonwy trwy ffos 0.6m o led a 1.2m o ddyfnder ac yna mewn ffos debyg ar hyd ymylon priffyrdd yr A4086, A4244 a'r B4547 tuag at yr is-orsaf ym Mhentir. Mae'r ceblau eu hunain yn cael eu gosod o fewn dwythell wedi ei warchod mewn dyfnder o 1.7m yn y ffos. Ble mae llwybr y ceblau yn croesi'r Afon Rhythallt, mae bwriad i dyllu'r tir ger ochr yr afon a gyrru'r tyllwr o dan wely'r afon i dir yr ochr arall i'r afon. Mae hyn yn angenrheidiol yma gan nad yw'r ddwythell bresennol o fewn y bont yn addas ar gyfer ceblau 132kv.

1.3 Mae rhan fwyaf o'r tir sy'n cael ei effeithio gan y bwriad yn dir wedi ei ddatblygu eisoes gan gynnwys lonydd, palmentydd cyhoeddus ac ochrau gwyrdd sydd gyfochrog a'r lonydd cyhoeddus**.**

1.4 Mae Erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (DMPWO) yn rhoi diffiniad o ddatblygiadau ‘mawr’ (*major application*) a drwy hynny, pa rhai sydd yn gorfod mynd drwy’r broses o ddarparu pecyn ‘Ymgynghori a’r Gymuned Cyn Ymgeisio’ (*Pre Application Consultation Report*). Nid yw’r gofyniad hwn yn berthnasol i geisiadau arfaethedig o dan adrannau 73 neu 73A er mwyn diwygio amod a felly nid oes angen i’r ymgeisydd ddarparu pecyn ‘Ymgynghori a’r Gymuned Cyn Ymgeisio’ gyda’r cais cyfredol.

1.5 Mae’r bwriad wedi ei asesu drwy farn sgrinio yn nhermau yr angen i gyflwyno Asesiad Effaith Amgylcheddol a chanfuwyd nad oedd angen asesiad ffurfiol yn yr achos yma.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

ISA 1: Darpariaeth isadeiledd

ISA 2: Cyfleusterau cymunedol

PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad ac hygyrchedd

TRA 2: Safonau parcio

TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant

PS 7: Technoleg adnewyddadwy

AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig

PS 20: Diogelu a ble’n briodol gwella asedau treftadaeth

AMG 2: Ardaloedd o Dirwedd Arbennig

AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol

PCYFF 1: Ffiniau Datblygu

PCYFF 2: Meini prawf datblygu

PCYFF 3: Dylunio a siapio lle

PS 6: Lliniaru Effeithiau Newid Hinsawdd ac Addasu Iddynt

PS 5: Datblygu cynaliadwy

Canllaw Cynllunio Atodol (CCA): Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11 - Chwefror 2021)

Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a chadwraeth natur
Nodyn Cyngor Technegol 8: Ynni adnewyddadwy
Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio
Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a pherygl llifogydd
Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth
Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr amgylchedd hanesyddol

Cylchlythyr Cyf: WGC 016/2014’Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu’ (Hydref, 2014)

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

- Newid ansylweddol i Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmp Glyn Rhonwy 2017 (fel y'i cywirwyd gan Orchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmp Glyn Rhonwy (Cywiriad) 2017) (“Gorchymyn 2017”) dan baragraff 2, Atodlen 6, Deddf Cynllunio 2008 (“Deddf 2008") (17/11/2021).

- Gorchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer adeiladu a gweithredu cynllun storfa bwmp 99.9MW gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Busnes, Egni a Strategaeth Ddiwydiannol ar 08/03/2017.
- C18/0328/15/LL Codi adeilad deulawr ar ddefnydd busnes B1 i gynnwys gweithdy/labordy/swyddfa ynghyd â pharcio a plannu. - Caniatawyd gyda amodau ar 25/05/2018.
- C16/0886/15/LL Cais ar gyfer gosod llinell cyswllt grid 132KV tanddaearol rhwng safle storio pwmp Glyn Rhonwy a Is-orsaf Pentir - Caniatawyd gyda amodau 29/09/2016.

- C16/0737/15/SC Barn sgrinio ar gyfer y cyswllt grid rhwng y system storfa bwmp arfaethedig yng Nglyn Rhonwy a'r is-orsaf ym Mhentir. - Dim angen EIA.
- C15/0308/15/DA Cais diwygiad di-faterol i gais a ganiatawyd yn flaenorol C12/1451/15/LL ar gyfer diwygio rhestr cynlluniau a ganiatawyd trwy amod 2 o'r cyfryw ganiatâd - Caniatawyd gydag amodau ar 07/05/2015.
- C12/1451/15/LL Datblygiad cyfleuster storfa bwmp i gynnwys cronfa uchaf yn chwarel fawr gydag argae cysylltiol, cronfa isel yng Nglyn Rhonwy gyda argae cysylltiol, adeilad yn cynnwys tyrbinau, gwaith peirianyddol cysylltiol gan gynnwys creu tomenni llechi newydd a gwyro priffyrdd - Caniatau gydag amodau 19/02/2014.
- C09A/0583/15/R3 Creu mynedfa gerbydol, lonydd a llwybr troed newydd a gwaredu tomen lechi ac ail-raddio'r safle - Caniatawyd gydag amodau ar 12/01/2010.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned/Tref: | Ymateb wedi ei dderbyn ar 12/11/2021:<br><br>Dim gwrthwynebiad. |
| Uned Drafnidiaeth: | Ymateb wedi ei dderbyn ar y 26/11/2021:<br><br>Yr unig sylwad sydd gen i yw bod cylchfan newydd wedi ei adeiladu yn nghyffordd A4244 ac y A4086 ac mi felly mi fydd angen trafodaeth pellach gyda'r gwasanaeth Gwaith Stryd parthed i'r mater. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Ymateb wedi ei dderbyn ar 10/11/2021:<br><br>Diolch am ymgynghori gyda ni ar y cais uchod, a dderbyniwyd gennym ar 25 Hydref 2021.<br><br>Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r cais. Fodd bynnag, rydym yn eich atgoffa o amodau 3, 4 a 5 y caniatâd gwreiddiol cyfeirnod C16/0886/15/LL, ac yn argymell bod yr amodau hynny hefyd yn cael eu cynnwys mewn unrhyw ganiatâd pellach. Mae gennym hefyd y sylwadau isod:<br><br><u>Rhywogaethau wedi eu gwarchod</u><br><br>Bydd y rhan fwyaf o lwybr y cyswllt grid yn cael ei leoli o fewn ymyl y ffordd. Rydym yn fodlon gyda chasgliadau adroddiad ecolegol AECOM V2,12/10/2021, yng nghyd-destun cais cynllunio y cyswllt grid.<br><br><u>Materion eraill</u><br><br>Mae ein sylwadau uchod yn ymwneud yn benodol â materion sydd wedi'u cynnwys ar ein rhestr wirio yn unig, Gwasanaeth Ymgynghorol Cynllunio Datblygu: Pynciau Ymgynghori (Medi 2018), sydd wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan. Nid ydym wedi ystyried effeithiau posib ar faterion eraill ac nid ydym yn diystyru'r posibilrwydd i'r datblygiad arfaethedig effeithio ar faterion eraill. |

Cynghorwn yr ymgeisydd ei fod yn gyfrifol, yn ogystal â chael chaniatâd cynllunio, am sicrhau ei fod yn cael pob hawlen/caniatâd/trwydded sy'n berthnasol i'r datblygiad. Cyfeiriwch at ein gwefan i gael rhagor o fanylion. Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r uchod, cysylltwch â mi ar y manylion isod.

Cyngor i'r Datblygwr:

Cyrsiau Dŵr: Mae'r llwybr yn croesi 3 prif afon (Rhythallt/Seiont, Caledffrwd ac afon Cegin). Mae croesfan Rhythallt/Seiont (drwy ddrilio cyfeiriadol) angen Hawlen Gweithgaredd Risg Llifogydd pwrpasol ac mae'n debygol y bydd y ddwy groesfan arall yn cael eu hystyried fel gweithgarwch eithriedig dan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol. Cynghorir bod yr ymgeisydd yn mynd i'n gwefan i bennu a yw'r gwaith yn cael ei ystyried yn Weithgarwch Risg Llifogydd yn: hiips://naturalresources.wales/apply-for-a-permit/flood-risk-activities/?lang=en neu'n cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000 am fwy o gyngor ac i drafod y materion sy'n debygol o gael eu codi. Dylai'r ymgeisydd fod yn ymwybodol na fydd caniatâd efallai yn cael ei roi.

Dŵr Cymru:

Ymateb wedi ei dderbyn ar 04/11/2021:
Cyfeiriwn at eich ymgynghoriad cynllunio sy'n ymwneud â'r safle uchod, a gallwn ddarparu'r sylwadau a ganlyn mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig. Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad, mewn egwyddor, â'r cais i ddiwygio amod 1 cais cynllunio C16/0886/15/LL, i ganiatáu estyniad amser; fodd bynnag, rydym yn gofyn yn barchus bod unrhyw amodau sy'n ymwneud â draenio yn cael eu cadw ar unrhyw ganiatâd newydd a roddir i'r datblygiad. Mae ein hymateb yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan eich cais. Petai'r cais yn newid yn ystod y broses wneud cais, gofynnwn yn garedig eich bod yn ail-ymgynghori â ni ac rydym yn cadw'r hawl i wneud sylwadau newydd. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r is-lofnodedig ar 0800 917 2652 neu dros e-bost ar developer.services@dwrcymru.com Dyfynnwch ein cyfeirnod ym mhob cyfathrebiad neu ohebiaeth os gwelwch yn dda.

Uned Gwarchod y Cyhoedd:

Dim ymateb wedi ei dderbyn.

Uned Bioamrywiaeth

Ymateb wed ei dderbyn ar 04/11/2021:

Nid oes gennyf sylwadau pellach na’r sylwadau Bioamrywiaeth sydd ar y cais gwreiddiol.

| | |
| --- | --- |
| CADW | Ymateb wedi ei dderbyn 08/11/2021: |

Darperir y cyngor hwn mewn ymateb i gais cynllunio i ddiwygio amod 1 cais cynllunio (cyfeirnod C16/0886/15/LL) i osod ceblau cyswllt grid 132KV tanddaearol rhwng Cyfleuster Storio Glyn Rhonwy ac Is-orsaf Pentir fel y gellir ymestyn cyfnod cychwyn y datblygiad am ddwy flynedd ychwanegol.

Mae'r asedau hanesyddol dynodedig a restrir isod wedi'u lleoli 3km y tu mewn i'r datblygiad arfaethedig; fodd bynnag, bydd y ceblau'n cael eu claddu dan y ddaear, ac felly, unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, ni fydd unrhyw effaith ar osodiadau unrhyw un o'r asedau hanesyddol dynodedig hyn. Felly, nid oes gennym unrhyw wrthwynebiadau.

<u>Henebion Cofrestredig</u>

CN168 Grŵp Cytiau Cae Metta

CN200 Grŵp Cytiau Cefn Mawr

CN198 Chwarel Lechi Vivian, Inclêns, Walia a strwythurau cysylltiedig

CN225 Grŵp Cytiau Amgaeedig i'r gogledd-ddwyrain o Gaer Mynydd

CN223 Llys Dinorwig

CN392 Maen Hir Parc y Gleision

CN231 Cylchoedd Cytiau GDd o Garreg Lefain

CN230 Cwt a Lloc Ger Mur-Moch

CN232 Grŵp Cytiau Ger Tan-y-Coed Pont Rhythallt

CN228 Grŵp Cytiau, Ger Galltycelyn, D o Gwm-y-Glo

CN233 Grŵp Cytiau a Lloc Ger Cae Cerrig

CN288 Anheddiad Cylch Cytiau a Chwt Hirsgwar i'r Gogledd o Orsaf Hebron

CN058 Caer Carreg y Fran

CN066 Castell Dolbadarn

CN224 Anheddiad GO o Waen Rhythallt

CN227 Grŵp Cytiau Amgaeedig DO o Bronydd

| | |
|---|---|
| | CN226 Grŵp Cytiau Amgaeedig De-orllewin o Gaer Mynydd<br><br>CN163 Chwarel Dinorwig: Injan Weindio Hafod Owen, Sied Locomotif, Prif Olwyn Ddŵr a Thai<br><br>CN017 Gwersyll Dinas Dinorwig<br><br>CN060 Pentref Hynafol Glascoed<br><br>CN150 Carnedd Gron Glascoed<br><br>CN050 Gwersyll Pen-Isa'r-Waen<br><br>CN197 Castell Llanddeiniolen<br><br>CN156 Cloddwaith Hirsgwar 110m GO o Goed Tŷ Mawr<br><br>CN203 Grŵp Cytiau Amgaeedig Gors y Brithdir a Chaeau Hynafol<br><br>CN177 Inclên 'A' Barics Chwarel Dinorwig<br><br>CN149 Gwersyll Pen-y-Gaer<br><br>CN337 Chwarel Dinorwig<br><br>CN374 Carnedd Moel y Ci<br><br>CN376 Beddrod Goetre Uchaf<br><br>CN375 Coed Nant-y-garth, maen hir i'r G o<br><br>CN390 Carnedd Carreg Lefain<br><br>CN192 Grŵp Cytiau Gerlan<br><br>CN175 Grŵp Cytiau Amgaeedig Fodol Ganol<br><br><u>Parciau a Gerddi Cofrestredig</u><br><br>PGW(Gd)41(GWY Castell Bryn Bras (gradd II)<br><br>PGW(Gd)52(GWY) Faenol (gradd I)<br><br><u>Safle Treftadaeth y Byd</u><br><br>Diwydiant Llechi Gogledd-orllewin Cymru - Tirwedd mynyddig Chwarel Dinorwig |
| Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd | Ymateb wedi ei dderbyn ar 26/10/2021:<br><br>Diolch i chi am ymgynghori gyda ni ar y cais hwn. Nid yw'r estyniad i'r cyfnod cychwyn y gwneir cais amdano yn effeithio ar faterion archeolegol ac felly, nid oes gennym unrhyw sylwadau. |

| | |
| --- | --- |
| Uned Draenio Tir | Diolch am yr ymgynghoriad isod a sori am yr ymateb hwyr. Nid oes gan yr uned sylwadau i'w cynnig o ran draenio tir na risg llifogydd lleol. |
| Grid Cenedlaethol | Ymateb wedi ei dderbyn ar 14/10/2021:<br><br>C21/0934/15/AC \| cais i ddiwygio amod 1 cais cynllunio (cyfeirnod C16/0886/15/LL) i osod ceblau cyswllt grid 132KV tanddaearol rhwng Cyfleuster Storio Glyn Rhonwy ac Is-orsaf Pentir fel y gellir ymestyn cyfnod cychwyn y datblygiad am ddwy flynedd ychwanegol - Storfa Bwmp Glyn Rhonwy, Glyn Rhonwy, Llanberis, LL55 4EL.<br><br>Mae NGET yn nodi'r cais gan Snowdonia Pumped Hydro Ltd. i ymestyn y cyfnod amser ar gyfer y cais cynllunio i osod ceblau cyswllt grid 132kV tanddaearol rhwng Cyfleuster Storio Glyn Rhonwy ac Is-orsaf Pentir.<br><br>Byddwn yn gwneud y sylwadau a ganlyn i'r Cyngor:<br><br>Is-orsaf Pentir<br><br>• Mae rhan o'r cais yn dod o fewn tir gweithredol sy'n eiddo i, ac yn cael ei feddiannu gan, National Grid Electricity Transmission plc yn is-orsaf Pentir. Bydd angen trafodaeth am unrhyw waith o fewn perchnogaeth tir y Grid Cenedlaethol gyda'r Grid Cenedlaethol ynglŷn â chaniatáu hawddfraint neu fforddfraint ar gyfer ceblau drwy'r ardal hon.<br><br>• Mae gan NGET ei gynigion datblygu ei hun (Prosiect Amnewid Ceblau Pentir-Dinorwig) yn is-orsaf Pentir sydd wedi dechrau yn ddiweddar, bydd y gwaith hwn yn parhau hyd nes 2026 a bydd angen cydlynu unrhyw waith ar y safle yn fanwl.<br><br>A4244<br><br>• Mae gan NGET geblau tanddaearol 400kV wedi'u gosod yn bresennol o fewn yr A4244 o Bentir i Frynrefail. Mae'r ceblau hyn yn ffurfio'r Seilwaith Cenedlaethol hanfodol a dylid cynllunio gwaith yn y briffordd yng nghyffiniau'r ceblau hyn yn ofalus ac ystyried y canllaw diogelwch perthnasol i osgoi ymyrraeth â'r ceblau hyn. Gall y Grid Cenedlaethol ddarparu gwybodaeth ar leoliad y ceblau hyn ac ati a dylai'r datblygwr gysylltu â [LSBUD] cyn dechrau unrhyw waith ac ati.<br><br><u>Prosiect Amnewid Ceblau Pentir-Dinorwig</u><br><br>• Ers i'r prosiect hwn gael y caniatâd cynllunio gwreiddiol, mae'r Grid Cenedlaethol wedi datblygu ei Brosiect Amnewid Ceblau Pentir – |

| | |
|---|---|
| | Dinorwig. Ym mis Mai eleni, gwnaeth NGET gais am farn sgrinio gan Gyngor Gwynedd a gadarnhaodd bod y gwaith yn ddatblygiad a ganiateir. Cyf: C21/0414/18/SC<br><br>• Mae'r prosiect hwn yn ymwneud ag amnewid cylched ceblau 400kV sengl presennol yn yr A4244 gyda dwy gylched ceblau 400kV ar hyd y briffordd. Llwybr a ddefnyddir hefyd gan y ceblau a gynigir yn y cais cynllunio hwn.<br><br>• Mae'r gwaith dylunio a datblygu wedi'i wneud ac mae gwaith adeiladu'r prosiect yn dechrau ym mis Tachwedd eleni. Bydd peipiau i ddal y ceblau yn cael eu gosod yn yr A4244 dan NRSW. Dylai'r datblygwr ystyried lleoliad y rhain wrth ddechrau ei waith ei hun. Gall NGET ddarparu gwybodaeth ar leoliad y ceblau a'r peipiau hyn ac ati a dylai'r datblygwr gysylltu â'r tîm prosiect cyn dechrau unrhyw waith ac ati. Mae NGET wedi bod yn cysylltu gydag Adran Briffyrdd Gwynedd ynghylch ein gwaith gosod sydd ar y gweill ac maent yn fodlon darparu gwybodaeth bellach ar ein rhaglen o waith priffyrdd i'r datblygwr.<br><br>• Gellir dod o hyd i wybodaeth ar y prosiect amnewid ceblau ar ein gwefan prosiect. Dinorwig to Pentir / O Ddinorwig i Bentir \| National Grid ET |
| First Hydro | Dim ymateb wedi ei dderbyn. |
| Uwch Swyddog Hawliau Tramwy | Dim ymateb wedi ei dderbyn. |
| Cymdeithas Pori Uwch Gwyrfai | Dim ymateb wedi ei dderbyn. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybuddion ar hyd y safle a ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth gan aelodau'r cyhoedd ynglŷn â'r bwriad. |

**5. Asesiad o’r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Cais i newid amod 1 o ganiatâd cynllunio C16/0886/15/LL er mwyn ymestyn cyfnod cychwyn y datblygiad o 2 flynedd ychwanegol sydd gerbron, ac felly nid oes newid i’r cynllun. Mae egwyddor

y bwriad yma wedi ei dderbyn a sefydlu eisoes gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol thrwy ganiatâd cynllunio C16/0886/15/LL. Mae hyn yn ystyriaeth faterol cynllunio. Mae'n bwysig ystyried felly os yw'r amgylchiadau neu'r sefyllfa bolisi cynllunio wedi newid ers caniatáu'r cais hwn yn wreiddiol.

5.2 Mae'n bwysig asesu a chadarnhau os yw'r sefyllfa yn nhermau cydymffurfio â'r Polisïau Cynllunio yn parhau i fod yr un fath. Dim ond os oes tystiolaeth o newid sylweddol mewn sefyllfa y gellir cysidro'r bwriad yn wahanol yn gyd-destun y polisïau yma.

5.3 Yn sgil polisïau lleol, penderfynodd yr Awdurdod Cynllunio Lleol y cais gwreiddiol ar sail polisïau Cynllun Datblygu Unedol Gwyned. Erbyn hyn, y ddogfen polisi cynllunio lleol mabwysiedig yw'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, felly, mae'n rhaid ystyried fod newid materol wedi bod yn y polisïau ers penderfynu y cais blaenorol.

5.4 Y polisïau perthnasol yma sy'n ymwneud a derbynioldeb egwyddor y cais diweddaraf hwn yw Polisi ISA 1 'Darpariaeth Isadeiledd' a PS 7 'Technoleg Adnewyddadwy'.

5.5 Mae polisi ISA 1 o'r Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud a darpariaeth isadeiledd ac mae rhan 6.1.18 yn datgan *"Caniateir cynigion i ddarparu isadeiledd neu wasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys cyflenwad dŵr, draenio, carthffosydd, nwy a thrydan a gwasanaethau perthnasol eraill, cyn belled nad ydynt yn peri niwed sylweddol i'r amgylchedd lleol, mwynderau cyhoeddus neu ddiogelwch y cyhoedd."* Fel y bydd yn cael ei drafod yn weddill yr adroddiad hwn, credir nad yw'r bwriad yma yn debygol o achosi unrhyw niwed sylweddol i'r amgylchedd, mwynderau cyhoeddus nag i ddiogelwch y cyhoedd.

5.6 Mae polisi strategol PS 7 sy'n ymwneud a Thechnoleg Adnewyddadwy yn datgan dylid bod y cynghorau'n sicrhau bod ardal y cynllun yn cyflawni ei botensial fel ardal arweiniol ar gyfer mentrau wedi'u seilio ar dechnolegau adnewyddadwy neu garbon isel lle bynnag y bydd hynny'n ymarferol a hyfyw. Bydd hyn yn cael ei hybu trwy dechnolegau ynni adnewyddadwy fel rhan o gynigion datblygu fydd yn cefnogi cynhyrchu ynni o ffynonellau amrywiol sy'n cynnwys, biomas, morol, gwastraff, dŵr, daear, haul, a ffynonellau gwynt, gan gynnwys micro gynhyrchu; neu ddatblygiad technoleg ynni adnewyddadwy ar ben ei hun. Mae yn ddibynnol ar gydymffurfio a'r meini prawf canlynol;

- Sicrhau nad yw cyfarpar mewn ardaloedd wedi'u cynnwys o dan ddynodiadau tirwedd ryngwladol neu genedlaethol ac i'w gweld tu draw i'w ffiniau, neu ardaloedd o werth lleol ar gyfer y dirwedd, yn unol â Pholisi Strategol PS 19, ddim, yn unigol neu'n gronnus, yn cyfaddawdu amcanion y dynodiadau, yn enwedig o ran cymeriad y dirwedd, a'r effaith weledol.
- Sicrhau nad yw cyfarpar yn unol â PS 19, yn cyfaddawdu amcanion dynodiadau cadwraeth natur ryngwladol, genedlaethol a lleol unai'n unigol neu'n gronnus.
- Cefnogi gosod cyfarpar tu allan i ardaloedd wedi'u dynodi, cyn belled nad yw'r cyfarpar yn achosi niwed sylweddol y gellir ei brofi i gymeriad y dirwedd, bioamrywiaeth, neu fwynder llety neu lety gwyliau, naill ai yn unigol neu'n gronnus.

5.7 Mae arweiniad pellach yn y polisi yn nodi datgan ***"I leihau effeithiau gweledol gwifrau newydd uwchben yn gysylltiedig efo fath gyfarpar, yn enwedig mewn mannau sensitif, fe ddylid gosod gwifrau tan ddaear os na fod hyn yn achosi niwed sylweddol i ddiddordebau cydnabyddedig eraill neu hyfywedd y bwriad, na ellid ei negyddu neu liniaru."***

5.8 Noder fod rhan o'r bwriad yn arwain drwy'r Ardal Tirwedd Arbennig 'Ymylon Gogledd-orllewin Eryri', yn gyfan gwbl o fewn tirwedd hanesyddol eithriadol 'Dinorwig' ac union gyferbyn Ardal

Treftadaeth y Byd 'Ardal y Llechi'. Drwy hynny, ystyrir fod y bwriad i osod y llinell gyswllt tan ddaearol yn gyd fynd ag arweiniad ym mholisi PS 7.

5.9 Fel y gwelir o'r hanes cynllunio, mae egwyddor o greu adnodd storfa bwmp yn chwarel Glyn Rhonwy eisoes wedi ei dderbyn a chymeradwyo gan y Cyngor ac ymhellach gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Busnes, Egni a Strategaeth Ddiwydiannol. Er gwybodaeth mae cais ar gyfer Gorchymyn yn rhoi Caniatâd Datblygiad (*Development Consent Order*) i gynllun storfa bwmp 99.9MW yng Nglyn Rhonwy, mae cais o'r maint yma yn cael ei ystyried fel Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (*Nationally Significant Infrastructure Project*) ac wedi derbyn caniatâd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Busnes, Egni a Strategaeth Ddiwydiannol. Rhoddwyd caniatâd o dan ddiwygiad ansylweddol i'r Gorchymyn yn rhoi Caniatâd Datblygiad er mwyn ymestyn cyfnod cychwyn y datblygiad ar 17/11/2021. Mi fyddai'r gwaith o greu cyswllt grid yn gallu cael ei ystyried fel datblygiad cysylltiol (associated development) yn arferol ond yma yng Nghymru ni ellir ei ganiatáu fel rhan o'r broses ac felly mae'n rhaid cyflwyno cais ffurfiol ar wahân am ganiatâd trwy'r Ddeddf Cynllunio.

5.10 Credir felly fod yr egwyddor yn dderbyniol a bod yr elfen yma yn gam angenrheidiol dilynol i'r caniatâd cynllunio sydd eisoes wedi ei wneud trwy sicrhau cyswllt rhwng o'r safle ble cynhyrchir y trydan a'r safle sydd yn ei ddosbarthu.

**Mwynderau gweledol, cyffredinol a phreswyl**

5.11 Mae rhan o lwybr yn arwain drwy'r Ardal Tirwedd Arbennig 'Ymylon Gogledd-orllewin Eryri' tra bod y llwybr cyfan o fewn dynodiad thirwedd hanesyddol eithriadol 'Dinorwig' ac union gyferbyn Ardal Treftadaeth y Byd 'Ardal y Llechi'. Mi fyddai gosod y cyswllt uwchben y ddaear yn amharu mewn modd annerbyniol ar y dynodiadau yma ond gan fod y bwriad i gladdu'r ceblau, credir fod y datblygiad yn osgoi effaith weledol niweidiol ar y tirweddau dynodedig yma. Am y rhesymau yma, ystyrir byddai'r bwriad yn dderbyniol o safbwynt mwynderau gweledol ac felly'n cydymffurfio gyda gofynion polisïau PCYFF 2, PCYFF 3, AT 1, PS 20 ac AMG 2 o'r CDLl.

5.12 Mae gwaith o'r math yma, yn arbennig felly o ystyried y byddai yn cael ei gynnal ar ochrau ffyrdd cyhoeddus prysur, yn debygol o effeithio ar fwynderau lleol gan gynnwys mwynderau trigolion sydd yn byw yn agos i'r llwybr ac sydd yn cael eu heffeithio yn unionyrchol os bydd yn croesi rhan o diroedd preifat. Mae hefyd yn debygol o effeithio yn achlysurol pan fod angen gosod rheolaeth traffig wrth weithio ar rannau mwy cyfyng/cul.

5.13 Er yr effeithiau yma, credir mai effaith tymor byr y byddant ac na fyddai effaith hir dymor niweidiol ar fwynderau cyffredinol yr ardal a'r trigolion yr effeithir. Fe welir y math yma o waith yn cael ei gynnal ar ochrau ac o fewn ffyrdd cyhoeddus ac yn amlach na pheidio heb yr angen am ganiatâd cynllunio. Ni chredir y byddai'r datblygiad yn amharu i raddau annerbyniol nac hir dymor ar fwynderau ac felly, ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi PCYFF 3 o'r CDLl.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.14 Ni wrthwynebir y cais hwn gan Uned Drafnidiaeth y Cyngor a ni dderbyniwyd unrhyw sylwad gan yr Uned Hawliau Tramwy. Mae'r ddwy uned wedi cydnabod ar y cais gwreiddiol (C16/0886/15/LL) bod y gwaith yn debygol o amharu ar symudiadau achlysurol ond nid effaith hir dymor fydd hyn. Mae angen i'r datblygwr gyflwyno ceisiadau am drwyddedi perthnasol i gynnal gwaith o fewn tiroedd priffyrdd ac fe sicrheir trwy hynny, y bydd y gwaith adfer yn cael ei wneud i safonau priodol. Mae'r Uned Drafnidiaeth wedi nodi bydd angen trafodaethau pellach gyda

Gwaith Stryd ynglŷn â gwaith o gwmpas y gylchfan newydd wedi ei adeiladu yng nghyffordd A4244 ac y A4086 ond nid yw hyn yn fater sydd angen ei ystyried fel rhan o gais cynllunio.

5.15 I'r perwyl hwn, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt ei gydymffurfiaeth gyda gofynion polisïau PS 4, TRA 2 a TRA 4 o'r CDLl a NCT 18.

**Materion bioamrywiaeth**

5.16 Darparwyd Adroddiad Asesiad Ecolegol Cychwynol (*Preliminary Ecological Appraisal Report*) (dyddiedig mis Medi, 2021) gyda'r cais ac mewn ymateb i'r cyfnod ymgynghori statudol mae'r Uned Bioamrywiaeth y Cyngor wedi cadarnhau nad oes unrhyw sylwadau pellach na'r sylwadau wedi eu rhoi gan yr uned ar y cais gwreiddiol. Gan fod mwyafrif y gwaith yn cael ei gynnal o fewn ochrau presennol priffyrdd cyhoeddus ac oherwydd hynny ni chredir byddai effaith niweidiol amlwg ar rywogaethau wedi eu gwarchod fel sydd yn cael crybwyll yn yr adroddiad (Medi, 2021) ynghyd a'r wybodaeth derbyniwyd ar y cais gwreiddiol.

5.17 Mae'r gwaith i dyllu o dan Afon Rhyddallt yn golygu y bydd yn croesi rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig 'Llyn Padarn'. Mae sylwadau gan CNC ar y cais cyfredol gan yr Uned Bioamrywiaeth ar y cais gwreiddiol yn cadarnhau nad oes wrthwynebiad a chynnig amodau i'r gwaith.

5.18 Gan ystyried sylwadau CNC a'r Uned Bioamrywiaeth a cyn belled a bod amodau priodol yn cael eu gosod, a’r cyngor perthnasol yn cael ei ddilyn a bod trwyddedu perthnasol yn cael eu canfod cyn dechrau'r gwaith, ystyrir fod y bwriad yma yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda gofynion polisïau AMG 5 yr CDLl a NCT 5.

**Materion Archeolegol ac asedau treftadaeth**

5.19 Fel y trafodwyd eisoes, mae'r bwriad yn arwain drwy'r Ardal Tirwedd Arbennig 'Ymylon Gogledd-orllewin Eryri', yn gyfan gwbl o fewn tirwedd hanesyddol eithriadol 'Dinorwig' ac union gyferbyn Ardal Treftadaeth y Byd 'Ardal y Llechi'. Yn ogystal, mae wedi ei leoli yn gyfagos i nifer o henebion, gerddi a pharciau cofrestredig. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, mae swyddog CADW wedi cadarnhau gan fod y ceblau yn cael ei gosod tan ddaear, ni fydd unrhyw effaith ar osodiad asedau dynodedig gerllaw.

5.20 Yn ychwanegol i ymateb CADW, mae'r gwasanaeth archeolegol wedi cadarnhau nad fydd y cais unrhyw effaith ar faterion archeolegol (yn unol â'i sylwadau ar y cais gwreiddiol) ac felly nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau.

5.21 O ystyried ymatebion CADW a'r gwasanaeth archeolegol, gellir ystyried fod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda gofynion polisïau AT 1 a PS 20 o'r CDLl a NCT 24.

**Materion llifogydd**

5.22 Mae llwybr y cysylltiad arfaethedig yn croesi'r Afon Rhyddallt ger pentref Brynrefail ag oherwydd hynny, mi fyddai angen caniatâd gan CNC ar ffurf trwydded arbennig er mwyn cynnal gwaith.

5.23 Ni wrthwynebir y bwriad gan CNC ac felly ni chredir y byddai'n achosi unrhyw effaith niweidiol o safbwynt materion llifogydd, credir felly fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt ei gydymffurfiaeth gyda gofynion NCT 15.

**Materion Cynaladwyedd**

5.24 Gan fod y bwriad yma yn mesur mwy nag 1,000m² mae'n cwrdd ar drothwy ym mholisïau PCYFF 5: Rheoli Carbon ar gyfer yr angen i gyflwyno 'Asesiad Ynni Adnewyddol' (*Renewable Energy Assessment*). Mae Polisi PCYFF 5 yn nodi disgwylir i'r Asesiad Ynni Adnewyddol ystyried y canlynol:

1. *Dyluniad ynni effeithlon - dylai datblygiad fanteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd ynni drwy ddyluniad, gosodiad, cyfeiriadedd, a defnydd o dechnegau eraill o ymgorffori dulliau ynni effeithlon; a*
2. *Dichonoldeb ynni adnewyddadwy - asesiad llawn o ddichonoldeb yr holl dechnolegau ynni adnewyddadwy posibl y gellid eu cynnwys ar y safle. Ar gyfer yr ateb a ddewisir, dylid darparu manylion ar:*

*i. Yr ynni a gynhyrchir a'r CO² a arbedir;*

*ii. Capasiti a maint y dechnoleg arfaethedig;*

*iii. Lleoliad y dechnoleg wedi'i farcio ar gynlluniau safle.*

5.25 Mae polisi PCYFF 5 hefyd yn nodi bod disgwyl i'r datblygiad ddangos sut roddwyd sylw i'r goeden ynni ym mholisi PS 6. Mae hierarchaeth ynni fel a ganlyn:

1. *Lleihau'r galw am ynni;*

*ii. Effeithlonrwydd ynni;*

*iii. Defnyddio technolegau ynni carbon isel neu ynni di-garbon lle bo hynny'n ymarferol, yn hyfyw ac yn gyson â'r angen i ymgysylltu â chymunedau a'u cynnwys; gwarchod mwynderau gweledol, yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol a'r tirlun.*

2. *Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, cynorthwyo i leihau gwastraff ac annog teithio trwy ddulliau eraill yn hytrach na'r car.*

5.26 Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddol yn adrodd fod dyluniad y cysylltiad grid arfaethedig yn ymdopi cysyniadau'r hierarchaeth ynni ac yr angen i fod yn effeithiol. Mae'r bwriad hefyd yn cysylltu egni carbon isel (wedi ei gynhyrchu yng Nglyn Rhonwy) yn uniongyrchol gyda'r grid cenedlaethol. Ystyrir fod y wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'r Asesiad Ynni Adnewyddol yn dderbyniol ac yn cwrdd ag anghenion polisi PCYFF 5 o'r CDLl.

5.27 Darparwyd 'Datganiad Cadwraeth Dŵr' (*Water Conservation Statement*) gyda'r cais gan fod y bwriad yn cwrdd ar drothwy o 1,000m² mewn maint wedi ei nodi ym mholisi PCYFF 6 o'r CDLl. Mae'r polisi yma yn datgan *"Dylai pob cynnig weithredu mesurau i leihau neu leddfu llifogydd lle bo modd, er mwyn lleihau'r dŵr wyneb sy'n rhedeg i ffwrdd a lleihau ei gyfraniad i risg llifogydd mewn mannau eraill."*

5.28 Mae'r Datganiad Cadwraeth Dŵr sydd wedi ei ddarparu yn nodi sut mae ystyriaeth wedi ei rhoi ar gyfer ddefnydd dŵr yn ystod y cyfnod adeiladu a pryd bydd y datblygiad mewn defnydd. Yn ystod

y cyfnod adeiladu bydd y datblygwr/contractwyr yn dilyn cyfarwyddiadau safonol ar gyfer osgoi llygredd ar faterion;

- Arferiad da amgylcheddol.
- Tanciau olew.
- Defnyddio a dylunio rhanwyr olew ger systemau draenio dŵr wyneb.
- Gwaith a gwaith cynnal a chadw ger dŵr.
- Storfeydd saff - defnydd saff o safleoedd ail lenwi tanwyddau.
- Storio a chael gwared ag olew wedi ei ddefnyddio yn saff.
- Cynllunio ar gyfer damwain llygredd.

5.29 Mae'r datganiad yn nodi gan na fydd unrhyw ran o'r datblygiad ar y tir, nid oes unrhyw gynnydd mewn arwynebau athraidd a ni fydd y datblygiad (unwaith bydd mewn defnydd) yn defnyddio dŵr, felly nid oes angen unrhyw fesurau effeithlonrwydd defnydd neu gadwraeth dŵr unwaith bydd y datblygiad mewn defnydd.

**Materion Ieithyddol**

5.30 Mae rhan 1 (a) o bolisi strategol PS 1 'Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig' yn nodi bod angen darparu Datganiad Iaith Gymraeg mewn achos ble mae yna ddatblygiad arfaethedig *"manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m. sg. neu fwy"*.

5.31 Mewn ymateb i'r angen hwn, mae'r ymgeisydd wedi darparu datganiad iaith Gymraeg (dyddiedig 22/10/2021). Yn unol â chyfarwyddiadau atodiad 5 o'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA): Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy, mae'r ymgeisydd wedi dod i'r casgliad nad oes angen 'Datganiad Iaith Gymraeg'. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid roedd Uned Iaith y Cyngor wedi ymateb i'r ymgynghoriad ond disgwylir sylwadau cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio.

**6. Casgliadau:**

6.1 Wedi ystyried yr holl faterion perthnasol ni ystyrir fod y bwriad o ymestyn yr amser a roddir o dan ganiatâd rhif C16/0886/15/LL er mwyn cychwyn ar y datblygiad yn groes i'r polisïau na'r canllawiau lleol a chenedlaethol perthnasol. Ar sail yr asesiad uchod credir bod y bwriad yn parhau i fod yn dderbyniol yn ddarostyngedig ar gynnwys amodau perthnasol fel y cynhwyswyd o fewn y caniatâdau blaenorol.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio i ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol.

Caniatáu – amodau

1. 5 mlynedd
2. Cwblheir y diwygiad/au a ganiateir drwy hyn yn llwyr unol â'r manylion a ddangosir ar gynlluniau a gyflwynwyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar 22/10/2021, ac a gynhwysir yn y ffurflen gais ac mewn unrhyw ddogfennau eraill gyda'r cais, os nad oes amod(au) sy'n ei diwygio wedi ei gynnwys ar y dyfarniad hwn. Er gwaethaf y diwygiadau a ganiateir drwy hyn rhaid cwblhau gweddill y datblygiad mewn cydymffurfiad gyda'r manylion ac amodau a gynhwysir o fewn caniatâd cynllunio rhif C16/0886/15/LL.